*This document is available in English* **Eitem Agenda 6a**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Mawrth 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru a'r Ymateb Rheoli.

2 Mae'r adroddiad yn galluogi'r Pwyllgor Archwilio i adolygu'r canfyddiadau ac i roi sicrwydd ynghylch dull Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o gynllunio ariannol tymor canolig a thymor hir.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

3 Mae Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad bod yr Awdurdod mewn sefyllfa ariannol gymharol sefydlog, wedi'i chefnogi gan gronfeydd defnyddiadwy cymharol gryf. Fodd bynnag, mae'r adolygiad yn argymell bod yr Awdurdod yn diweddaru ac yn cryfhau ei fframwaith cynllunio ariannol tymor canolig a thymor hir.

## ARGYMHELLION

4 Gofynnir i'r Aelodau:

i) **Nodi Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru;**
ii) **Ystyried a chymeradwyo Ymateb Rheoli'r Awdurdod a'r cynllun gweithredu cysylltiedig; a**
iii) **Chefnogi monitro parhaus o'r cynnydd drwy raglen waith ymlaen y Pwyllgor Archwilio.**

## CEFNDIR

5 Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o gynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod o dan ei bwerau statudol a nodir yn Adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn defnyddio eu hadnoddau, ac o ystyried dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a all lywio'r adrodd.

6 Dechreuodd y gwaith maes ym mis Tachwedd 2025, gan gynnwys adolygiad o ddogfennau ariannol, deunydd cynllunio mewnol, cofnodion llywodraethu, a threfniadau cynllunio ariannol tymor canolig a thymor hir yr Awdurdod.

7 Fel rhan o'i gyfrifoldebau casglu tystiolaeth, cynhaliodd Archwilio Cymru gyfweliadau gyda arweinwyr uwch reoli i asesu bwriad strategol, effeithiolrwydd llywodraethu, a chymhwysiad gweithredol goruchwyliaeth ariannol. Roedd y cyfweliadau hyn yn cynnwys Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, y Prif Swyddog Tân, y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Swyddog Adran 151, a'r Pennaeth Cyllid a Chaffael.

**GWYBODAETH**

8 Mae Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru wedi'i atodi'n llawn, gan nodi'r canfyddiadau, y cyd-destun, a'r argymhellion sy'n deillio o'u hasesiad o drefniadau cynllunio ariannol tymor canolig a thymor hir yr Awdurdod. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at feysydd o gryfder ynghyd â chyfleoedd i gryfhau strategaeth, llywodraethu, ac adrodd ariannol.

9 Mae'r Ymateb Rheoli hefyd wedi'i atodi, gan fanylu ar y camau gweithredu a gynllunnir, y cyfrifoldebau, a'r amserlenni ar gyfer mynd i'r afael â phob un o argymhellion Archwilio Cymru.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae fframwaith cynllunio ariannol yn cefnogi cynaliadwyedd tymor hir ac yn sicrhau bod penderfyniadau ariannol yn galluogi cyflwyno gwasanaethau yn ddiogel ac yn effeithiol. |
| Cyllideb | Bydd diweddariadau i brosesau adrodd a chynllunio ariannol yn cael eu bodloni o fewn yr adnoddau presennol. Bydd unrhyw oblygiadau a mesurau lliniaru yn cael sylw drwy'r broses gosod cyllideb. |
| Cyfreithiol | Sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Llywodraeth Leol 2003 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Staffio | Nid oes goblygiadau staffio uniongyrchol ar hyn o bryd. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd yr holl allbynnau ac adroddiadau yn parhau i gael eu darparu'n ddwyieithog ac yn unol â dyletswyddau statudol yr Awdurdod. |
| Risgiau | Bydd gweithredu'r argymhellion yn lleihau risg ariannol strategol, yn gwella tryloywder, ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol. |